*Prifysgol y Plant Ar-lein*

## Creu adroddiadau.

Unwaith y bydd plentyn yn dechrau defnyddio *Prifysgol y Plant Ar-lein* ac yn ychwanegu stampiau gweithgaredd, byddwch chi, fel aelod o staff gweinyddol yr ysgol, yn gallu gweld ac allforio adroddiadau syml ond pwysig. Mae'r rhain yn adroddiadau grymus a fydd yn eich helpu i ddangos effaith ac ymgysylltu i bartïon perthnasol fel rhanddeiliaid, cyllidwyr, Estyn a Llywodraethwyr.

Mae'r swyddogaeth hon yn hynod fuddiol i Brifysgol y Plant ac ysgolion ac mae'n werth ei hyrwyddo!

Mae 17 adroddiad ar gael: Isod ceir dadansoddiad o 15 adroddiad sy'n ddefnyddiol ar gyfer monitro ymgysylltu.

**Dadansoddiad o 15 adroddiad sydd ar gael i reolwyr Prifysgol y Plant:**

**1. Gweithgareddau sydd ar gael i blant yn ôl categori**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos nifer y gweithgareddau a ddilyswyd wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc. Mae'n dangos cynigion allgyrsiol ym mhob rhan o Brifysgol y Plant ac mewn ysgolion sy'n helpu i nodi 'mannau oer' yn ôl pwnc/maes

**2. Gweithgareddau sydd ar gael i blant yn ôl sgil**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos cynigion allgyrsiol ym mhob rhan o Brifysgol y Plant ac mewn ysgolion sy'n helpu i nodi 'mannau oer' yn ôl sgiliau/maes yn unol â'r fframwaith Adeiladwyr Sgiliau. Er enghraifft, gall rhedeg yr adroddiad hwn eich cefnogi i chwilio am wahanol fathau o weithgarwch. Os oes gan eich ysgol lawer o weithgareddau sy'n adeiladu 'gwrando' fel sgil ond nid llawer sydd â'r tag 'datrys problemau', gall hyn eich helpu i wybod pa weithgareddau allgyrsiol newydd i ganolbwyntio arnynt.

**3. Oriau cyfranogiad plant yn ôl categori**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos nifer yr oriau cronedig a gwblhawyd gan blant wedi'u dadansoddi fesul pwnc, gan ganiatáu monitro lle mae oriau wedi'u cwblhau

**4. Oriau cyfranogiad plant yn ôl sgil**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos nifer yr oriau cronedig a gwblhawyd gan blant wedi'u dadansoddi fesul pwnc, gan ganiatáu monitro lle mae oriau wedi'u cwblhau

**5. Cyfranogwyr Prifysgol y Plant yn ôl grŵp oedran**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos nifer y plant sydd wedi cofrestru gyda *Prifysgol y Plant Ar-lein* yn ôl grŵp oedran

**6. Cyfranogwyr Prifysgol y Plant yn ôl rhyw**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos nifer y plant sydd wedi cofrestru gyda *Prifysgol y Plant Ar-lein* yn ôl grŵp oedran Os nad yw Prifysgol y Plant yn orfodol, beth yw'r rhaniad rhwng y rhywiau? A oes mwy o ferched yn ei ddefnyddio na bechgyn? Os felly, pam mae hynny a beth y gellir ei wneud i annog bechgyn i ymgysylltu mwy â Prifysgol y Plant? Dyma lle mae'r gallu i adrodd am gategorïau a sgiliau sydd ar gael yn ddefnyddiol

**7. Mewngofnodi dyddiol yn ôl ysgol**

- Gweler dadansoddiad o gofnodion mewngofnodi dyddiol yn eich ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn gweithredu fel ysgogiad i gynnig cymorth i blant nad ydynt efallai'n ymgysylltu â *Prifysgol y Plant Ar-lein*

**8. Ymgysylltu gwirioneddol yn erbyn ymgysylltu posibl**

- Mae'r adroddiad hwn yn creu data ymarferol sy'n dangos disgyblion cofrestredig Prifysgol y Plant yn erbyn cyfanswm y nifer ar gofrestr eich ysgol. Mae hyn yn dangos nifer gwirioneddol aelodau Prifysgol y Plant yn erbyn yr ymgysylltu posibl sydd ar gael

**9. Oriau cyfranogiad plant yn ôl ysgol**

- Gweler nifer yr oriau a gwblhawyd gan aelodau Prifysgol y Plant.

**10. Defnyddwyr anweithredol yn ôl grŵp oedran**

- Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddefnyddwyr anweithredol wedi'u dadansoddi yn ôl blwyddyn ysgol. Mae hyn yn ein helpu i weld pa grŵp oedran y mae Prifysgol y Plant yn apelio fwyaf ato, a gall weithredu fel sbardun ar gyfer gwaith ymgysylltu

**11. Mewngofnodi yn ôl ysgol**

- Mae'r adroddiad hwn yn dangos sawl gwaith y mae staff ysgol Prifysgol y Plant wedi mewngofnodi

**12. Allforio gwybodaeth am blant yn ôl ysgol**

- Gweler cofnod llawn o wybodaeth wedi'i hallforio fesul plentyn

**13. Nifer yr achosion o ymgysylltu â chyflogwyr**

- Nifer yr achosion o ymgysylltu â chyflogwyr yn unol â Meincnodau Gatsby. Gellir defnyddio'r data hwn at ddibenion adrodd ac mae'n dangos sut mae Prifysgol y Plant yn codi dyheadau

**14. Nifer yr achosion o ymgysylltu ag AB/AU**

- Nifer yr achosion o ymgysylltu ag AB/AU yn unol â Meincnodau Gatsby. Fel ysgol gallwch fonitro nifer yr achosion o ymgysylltu ag AB/AU.

**15. Allforio gwybodaeth ymgysylltu**

- Mae'r adroddiad hwn yn allforio'r holl wybodaeth ymgysylltu sy'n ymwneud â Meincnodau Gatsby (AB/AU ac achosion o ymgysylltu â chyflogwyr). Mae hyn yn lawrlwytho i ffeil .csv ac yn cynnwys gweithgareddau a enwir sydd wedi'u tagio â'r achosion hyn o ymgysylltu. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion weld yn glir pa weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd i ymgysylltu ac yn dangos cysylltiadau rhwng gweithgareddau a llwybr gyrfa.

**Beth bydd ei angen arnoch i weld yr adroddiadau hyn**

- Eich manylion mewngofnodi *Prifysgol y Plant Ar-lein*

Cam 1

- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

Cam 2

- Ar ochr dde eich dangosfwrdd fe welwch y stribed melyn hwn gyda'r trosolwg o faint o blant a gweithgareddau wedi'u dilysu sydd o fewn eich ysgol. I weld adroddiadau, cliciwch ar y botwm glas *view all reports.*

Gellir cael gafael ar adroddiadau ar unrhyw adeg drwy eich dangosfwrdd.




**Cam 3.**

Byddwch wedyn yn gallu gweld rhestr o'r adroddiadau amrywiol sydd ar gael i chi (gweler y dadansoddiad o'r adroddiadau)

**Cam 5**

- Isod ceir adroddiad prawf sy'n ymdrin â *Gweithgareddau sydd ar gael i blant yn ôl categori* a dangosir hyn mewn graff syml y gellir ei allforio, gan hwyluso’r broses o greu data ymarferol ac amlwg.




Os byddwch yn dewis *Export,* bydd yr adroddiad yn lawrlwytho'r wybodaeth a ddangosir yn y graff fel ffeil csv yn awtomatig

- Yn yr enghraifft isod, mae'r adroddiad *Gweithgareddau sydd ar gael i blant yn ôl* categori wedi'i allforio i csv. Yna gallwch ailenwi a chadw'r allforyn i'r cyfrifiadur.

**Problemau Cyffredin**

- Ni fydd unrhyw ddata ar gael os nad oes plant yn mewngofnodi ac yn ychwanegu eu gweithgareddau at *Prifysgol y Plant Ar-lein*. Os hoffech gael cymorth i helpu eich ysgolion a'ch plant i sefydlu a defnyddio *Prifysgol y Plant Ar-lein,* cysylltwch â cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk Children's University Online\\PHASE 2\\Onboarding\\Help documentation\\CU managers help\\cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk
- Os ydych yn ceisio defnyddio *Prifysgol y Plant Ar-lein* ar gyfer adroddiad penodol nad yw ar gael yn rhwydd, cysylltwch â cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cefnogi